Hydref 2017 Rhifyn 260



Gwelir Duw yn lliwiau'r Hydref
pan aeddfedo'r cnwd a'r grawn;
mae ei roddion yn y berllan,
mae ei wyrth mewn sgubor lawn.

# GAIR Y GWEINIDOG

"Mae'r haf yn ymddangos ymhell yn ôl!"

Sawl gwaith mae rhywun wedi clywed y geiriau yna yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac, yn hynny, y dyhead i ailddechrau'r cyfnod yna o wyliau ac o orffwys. Mae mis Awst yn apelio, mis yr Eisteddfod, mis y mannau cyfarwydd a'r newydd, mis y cerdded a'r hedfan, ac yn fwy na dim, mis yr ymlacio. Mae rhywun yn cyffredinoli oherwydd i lawer un fe all fod yn fis trafferthus gyda gwaith a gofal am blant yn galw am gynllunio gofalus a dibyniad ar deulu a ffrindiau cymwynasgar. Ar ôl dweud hynny, y mae'r rhan fwyaf ohonom yn llwyddo i gael rhyw fath o egwyl, ac o ganlyniad, achosi i batrwm arferol bywyd gael ei newid, petai hynny ond am ryw ychydig ddyddiau.

A dyna efallai sy'n apelio, yn enwedig i'r rhai hynny y mae eu patrwm byw dyddiol yn eitha tebyg. Mae'r larwm yn canu ac yn arwyddo dechrau diwrnod newydd gyda'i ddarpariaethau a'i gyfrifoldebau, ac mi rydan ni'n darganfod ein hunain yn ymolchi, gwisgo, siafio, llyncu cwpaned o de, gyrru, cerdded, gollwng plant yn yr ysgol, cyrraedd gwaith, ateb ebyst, cyfarfod unigolion, penderfynu, darllen, ysgrifennu a chant a mil o bethau eraill. Mor braf yw cael mynd i'r gwely a gofalu bod y botwm larwm i ffwrdd! Dim y 'bibbibbibbib' diflas, arferol hwnnw, ond yn hytrach cyfle i brofi bywyd hollol wahanol. Yr adeg yna y mae rhywun yn darganfod ei hunan mewn byd arall, a chyda'r teimlad hwnnw, y cyfle i weld a phrofi pethau'n wahanol. Mi fyddai cyfaill o glerigwr Anglicanaidd yn dweud wastad bod Llanelli yn ymddangos ymhell i ffwrdd pan fyddai ar wyliau dramor, a gyda hynny y trafferthion sy'n rhan o unrhyw alwedigaeth, ac mae hynny'n deimlad real i bob un ohonom. Diolch am gyfleon i brofi patrymau gwahanol bywyd a'r bendithion a'r adnewyddiad sy'n rhan o'r cyfan.

Wrth feddwl fel yna, mae rhywun yn sylweddoli y gall hyn fod yn wir am ein bywydau crefyddol hefyd, sef y perygl o syrthio i rigol. Y patrymu hwnnw sy'n adlewyrchiad o drefn a thraddodiad, a thu hwnt i hynny, y cyflwr meddwl hwnnw sy'n gyfrwng i greu y teimlad weithiau o ddiflastod. Bryd hynny, mae yna berygl ein bod ni'n colli diddordeb a'r weithred o ymgysegriad yn gollwng gafael mewn dychymyg. Mae gan bob un ohonom ein straeon, yn bersonol a chynulleidfaol, straeon y mae galw arnom i'w hystyried a'u rhannu, a dim yn fwy na

chyda'r ddealltwriaeth o adferiad. Pwrpas unrhyw wyliau yw cyfle i ddatod ein hunain oddi wrth rigol arferol bywyd, ac o ganlyniad, profi'r teimlad yna o adferiad, yr union deimlad sy'n rhan o'n ffydd. Nid Duw rhigolau yw'r Duw hwnnw yr ydan ni'n ei adnabod ym mherson yr Iesu ond yn hytrach y Duw hwnnw sy'n gwneud pob peth o'r newydd! Ac yn dilyn o hynny, y ddealltwriaeth o wahoddiad dyddiol i fod yn rhan o'r 'newydd' hwnnw gan brofi ei rym a'i allu yn ein bywydau.

Fe aeth yr haf, a bellach mae hi'n hydref, a thymor newydd yn arwyddo cyfle newydd. Gadewch i ni fanteisio ar y cyfle hwnnw a chyflwyno ein doniau a'n gwasanaeth mewn ffydd ac mewn ymgysegriad.

Mwynhewch yr hydref!

Eifion

# NEWYDDION

## Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion …

- at Mattie Jones, Eluned Morris, Elvey MacDonald a Joan Jones a fu yn Ysbyty Bronglais yn ystod yr haf. Deallwn fod Mrs Joan Jones erbyn hyn wedi symud i Gartref Nyrsio Allt-y-mynydd, Llanybydder;
- at Margaret Morgan sy'n parhau i fod yn Ysbyty Tregaron. Hefyd anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd mewn cartrefi preswyl neu sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi.

## Dymunwn yn dda …

- i Terry a Buddug Davies sydd wedi dathlu eu priodas aur yn ddiweddar;
- i John ac Ann Davies sydd hefyd wedi dathlu eu priodas aur;
- i Meirion a Mary Morgan a fydd yn dathlu eu priodas ddiemwnt ar 19 Hydref;
- i Ossie Rees sydd wedi dathlu ei ben blwydd yn 90 oed yn ystod yr haf.

## Cydymdeimlwn yn ddwys â …

- Glenys James sydd wedi colli ei chwaer, Mrs Megan Davies o Lanfihangel-genau'r-glyn;
- Mary Jones Morris a'r teulu ar farwolaeth modryb Mary, sef Mrs Olwen Penny;

- Mattie Jones, sydd wedi colli'i brawd yng nghyfraith, Mr Edryd Jones.

## Priodas …

- Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Llŷr ac Angharad Evans a briodwyd yng Nghapel y Morfa ddiwedd Gorffennaf;
- hefyd i Charlotte ac Adam Stafford a briodwyd yng Nghapel y Morfa ddiwedd Awst.

## Genedigaeth…

- Llongyfarchiadau i Elaine ac Emyr Reynolds ar enedigaeth eu hwyres, Carys Elain, merch i Lynwen a Neil Holman, Warrington a chwaer i Gethin James;
- llongyfarchiadau i Violet Holden ar enedigaeth ei hwyres, Luna Belle, merch i Emma a Calvin a chwaer i Kyra;
- llongyfarchiadau i Lynda a Michael Lewis ar enedigaeth eu hŵyr, Eben Hopcyn, mab i Nia a Tudur a brawd i Cadi a Iori;
- hefyd llongyfarchiadau i Noel a Dilys Lloyd ar enedigaeth eu hwyres, Catrin Ethni, merch i Carys ac Andrew, Caer-grawnt, a chwaer i Sioned.

## Bedydd

- Yn ystod y gwasanaeth fore Sul, 3 Medi, bedyddiwyd Alexander Pierce McDougall gan ein gweinidog, mab i Steffan a Grace McDougall. Dymunwn pob bendith iddynt fel teulu.

## Llongyfarchiadau…

- i Llŷr Eirug ar ennill y wobr gyntaf am ganu unawd yn y gystadleuaeth i fechgyn o 12-15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ac am ennill yr ail wobr am ganu cerdd dant;
- hefyd i Jeremy a Mari Turner ar gael eu hurddo i'r Orsedd yn Eisteddfod Ynys Môn a hynny'n dilyn pythefnos prysur iawn yn arwain prosiect ddrama gymunedol Gŵyl Hen Linell Bell ar rodfa'r môr ac yn adeilad Theatr Arad Goch. Llongyfarchiadau i'r rhai o'r Morfa a fu'n actio ac yn cymryd rhan yn y cyflwyniad ardderchog ar y nos Sadwrn ac i'r rhai a fu'n cynorthwyo gyda'r gweithgareddau;

- hefyd i Ioan Mabbutt a fu'n canu yng nghyngerdd dathlu 50 Merched y Wawr yng Nghanolfan y Celfyddydau ac am ei ddatganiad o *Anfonaf Angel* gyda'r cantorion Aled Hall ac Aled Wyn Davies;
- llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r bobl ifanc ar eu llwyddiant yn eu harholiadau yn ystod yr haf a dymunwn yn dda iddynt i gyd wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau, ac i'r rhai sy'n dechrau swydd neu yrfa newydd.

Hoffai Rhiannon a Bryn fynegi eu diolch i bawb am eu dymuniadau da, trwy gardiau ac ar lafar, ar 60[ed] pen blwydd eu priodas ym mis Awst. Roedd yn braf profi unwaith eto o gynhesrwydd y gymdeithas yn y Morfa. Diolch yn fawr ichi i gyd.

## PROSIECT GARDD GASKELL

Mae prosiect yn ardal Manceinion sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd â chysylltiad anuniongyrchol ag Aberystwyth. Un o sefydlwyr 'Prosiect Gardd Gaskell' yw Daniel Isaac – nai Nonna Owen, Coedlan Iorwerth, ac ŵyr y diweddar Mr a Mrs Richard Isaac o'r un cyfeiriad.



Mae prosiect Daniel a'i ffrindiau yn cyfuno eu brwdfrydedd dros bara-maethu (sef datblygu ecosystemau amaethyddol gyda'r bwriad i fod yn gynaliadwy a hunan-gynhaliol) â'u dymuniad i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches ym Manceinion. Cafodd y prosiect ei enwi er cof am eu cyfeillion James ac Alex Gaskell a fu farw'n gynamserol. Mae'r prosiect wedi ei leoli yn Rhandiroedd Bethnal Drive, Fallowfield, De Manceinion ac yn cynnig safle gardd creadigol, diogel, hawdd ei gyrraedd, sy'n croesawu a derbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd wedi cael eu hadleoli o'u mamwlad. Mae'r prosiect yn hyrwyddo cydlyniad diwylliannol a chymdeithasol. Ceir rhaglenni sy'n trin yr ardd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol megis gwaith tîm a datrys problemau. Mae'r gweithdai

paramaethu a chelfyddydol yn rhoi cyfle i ddiwylliannau gwahanol gyfarfod, i sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol, i dderbyn cyngor a rhannu bwydydd. Mae’r tîm yn gweithio ochr yn ochr â mudiadau ffoaduriaid a hawliau dynol i alluogi y rhai sy’n cymryd rhan i gael mynediad i gefnogaeth gyfreithiol. Mae gan y prosiect Raglen Noddi Ffoaduriaid sydd yn cyflenwi adnoddau megis dillad, bwyd, beiciau a dosbarthiadau iaith. Un o’r digwyddiadau codi arian mwyaf poblogaidd a drefnir yw ‘pay as you feel meals’ lle gwneir defnydd o gynnyrch yr ardd a’r bwyd dros ben o archfarchnadoedd gan gogyddion gwirfoddol.



Braf yw clywed am brosiectau mewn rhannau eraill o Brydain sy’n estyn croeso i ffoaduriaid ac yn hybu cymdeithas agored fel yma yn Aberystwyth.

Gareth Owen

## Mae’n bwysig edrych i fyny weithiau ...

Diolch i Bryn Roberts am ymateb i’n cais yn rhifyn diwethaf *Perthyn* am ragor o wybodaeth am y garreg ddiddorol hon sydd wedi ei gosod ar wal siop *Savers* yng nghanol tre Aberystwyth. Fe’n cyfeiriodd ni at yr hanes yng nghyfrol *Born on a Perilous Rock*, tudalen 42–3. Yn 1823 cynhaliwyd cyfarfod hynod o bwysig yn yr adeilad hwn i lunio Cyffes Ffydd y mudiad cymharol newydd, y Methodistiaid Calfinaidd, a hynny yng nghartref siopwr blaenllaw yn y dref o’r enw D. Jenkin Davies. Dyma, felly, oedd ‘man geni’ Methodistiaeth Calfinaidd’, ac mae’n debyg fod yr ystafell wedi ei chadw yn union fel yr oedd am flynyddoedd. Efallai y bydd rhai aelodau yn cofio’r Co-op a ddaeth i’r safle yn ddiweddarach.



## GWEDDI

*dros rai sydd wedi eu heffeithio gan lifogydd*



Dduw tosturiol,
  tarddle pob cysur,
Gweddïwn dros y bobl sydd â'u
      bywyd wedi ei
  ddifrodi gan y glaw a'r llifogydd.
Cysura hwy, gweddïwn.
Gwarchod y bregus.
Cryfha'r gwan.
Cadw pob salwch draw.
Bydd drugarog wrth bob un sy'n gweithio
  i achub y rhai mewn perygl
  ac i fwydo'r llwglyd.
A bydded i'n hymateb ni i'w dioddefaint
Fod yn hael gan ddod â chlod i ti.
  Yn enw Iesu, AMEN

*Oddi ar wefan Cymorth Cristnogol*

# Newyddion Ebeneser



Cynhelir gwasanaeth yn Ebeneser bob prynhawn Sul am 2.15. Mae'n braf cael bod yn ôl wedi'r seibiant ym mis Awst ac edrychwn ymlaen at groesawu cyfeillion i ymuno â ni yn yr addoliad ac i fwynhau cymdeithas â'n gilydd.


Ar ddechrau'r tymor newydd anfonwn ein dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion i gyd ac at y rhai sydd, oherwydd eu hamgylchiadau, yn methu mynychu'r

gwasanaethau ar brynhawn Sul. Cofiwn yn arbennig am Margaret Morgan yn Ysbyty Tregaron ac am Mr David Richards yng Nghartref Cwmcynfelyn.

Cynhelir ein gwasanaeth diolchgarwch brynhawn Sul, 15 Hydref. Un o'r emynau a genir yn ein cyfarfodydd diolchgarwch yw emyn y prifardd W.J. Gruffydd (Elerydd):

Gwelir Duw yn lliwiau'r Hydref
    pan aeddfedo'r cnwd a'r grawn;
mae ei roddion yn y berllan,
    mae ei wyrth mewn sgubor lawn.

Mae ei Ysbryd yn ymsymud
    eto dros y cread mawr.
Bendigedig fyddo'r Arglwydd,
    Haleliwia nef a llawr!



## MERCHED YR URDD

Wrth i Urdd Gobaith Cymru edrych ymlaen at ddathlu canrif ers sefydlu'r mudiad, mae yna griw o wirfoddolwyr wrthi'n trafod Archif yr Urdd o dan arweiniad Siwan Jones. Bu rhai ohonynt yn ymweld ag Amelia yn ddiweddar, er mwyn clywed am ymwneud Amelia â'r Urdd dros y blynyddoedd. Bu hi'n sôn wrthynt am ei phrofiadau yn cystadlu yn Eisteddfod Llanidloes 1970, fel gwersyllwr yng Nglanllyn yn y 60au hwyr a'r 70au cynnar, a hefyd fel merch siop a merch y gegin yno yn ystod hafau 1972–1974.

Roedd gan Amelia lwyth o memorabilia i'w dangos iddynt, yn docynnau aelodaeth, tystysgrifau, geiriau 'topicalied', manylion teithiau ac wrth gwrs nifer fawr o luniau … i gyd yn atgof anhygoel o bwysigrwydd yr Urdd yn ei bywyd pan yn ifanc.

Dyma lun o Ela James, Marged Smith a Cara Rogers, y tair yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Bro Myrddin, yn cael croeso yng nghartref Amelia.



# YMWELIAD ARBENNIG

Yn ystod oedfa'r bore ar 3 Medi cafwyd ymweliad gan griw o fyfyrwyr o Gymru a thramor a oedd wedi dod ynghyd o dan adain Urdd Gobaith Cymru i geisio adfywio elfen ryngwladol Neges Heddwch ac Ewyllys Da pobl ifainc Cymru i'r byd. Roedd y criw wedi dod ynghyd i ymchwilio a thrafod hanes y neges ers y dechreuad yn 1922, ac roeddent yn cynnwys myfyrwyr o Siapan, Ffrainc, Sbaen, Wcráin, yr Almaen a Chymru. Y nod oedd gwerthfawrogi'r elfen ryngwladol er mwyn creu cynllun am y ffordd ymlaen a thrwy hynny adrodd yr hanes yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Partneriaeth rhwng Urdd Gobaith Cymru ac UNA Exchange yw'r ymgais hon i ddod â myfyrwyr o Gymru a thramor at ei gilydd. Wrth ymchwilio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru daethpwyd ar draws llythyron digri o bob cwr o'r byd at y dyn a ddechreuodd yr hanes, sef Gwilym Davies.

Meddai un o'r gwirfoddolwyr, "Profiad anhygoel oedd darllen llythyron o America a anfonwyd o 1930 ymlaen. Roedd yn agoriad llygad gweld pa mor gysylltiedig oedd y byd mewn cyfnod lle'r oedd sôn am ryfela."

Cyfieithodd y myfyrwyr holiadur am y neges i'w hieithoedd eu hunain ac yna eu dosbarthu yn bersonol ac ar lein. O'r ymatebion niferus a ddaeth i'r golwg cafwyd syniad am sut i lunio negeseuon y dyfodol a sut i'w rannu'n rhyngwladol yn llwyddiannus.




Dywedodd Catrin James, Swyddog Polisi yr Urdd, iddi hi a'r criw gael pythefnos prysur, "yn ymchwilio yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn ymweld â'r Ysgwrn a Senedd Owain Glyndŵr, ac yn cydweithio a thrafod elfennau pwysig ein diwylliant ni a'u diwylliant hwy a magu parch tuag at ein gwahaniaethau".

Rhan o'r dysgu am Gymru oedd ymweld â'r Morfa a chael cyfle i fod yn rhan o addoliad y bore Sul. Roeddent i gyd wedi gwerthfawrogi'n fawr y croeso gwych a gafwyd yn y capel, ac fe soniodd y bobl ifanc yn arbennig am gynhesrwydd y croeso a pha mor agos atoch oedd pawb yno.

# CALON Y GÂN

Nos Sul, 17 Medi, cafwyd oedfa arbennig yn festri'r Morfa, dan arweiniad y Parch Casi Jones, Clynnog Fawr. Fel y gwyddom, mae Casi yn awdur nifer o emynau gwerthfawr, ac yn ddiweddar, bu'n cyfansoddi sawl un newydd i'w canu ar donau alawon gwerin Cymreig cyfarwydd. Bu'n rhannu ei phrofiadau o ysgrifennu rhai o'r emynau hyn, a chafwyd cyfle i'w cydganu, gyda Rhidian yn cyfeilio. Dyma un ohonynt, a ganwyd ar y dôn Ar Lan y Môr:

Ni thawaf byth am aberth Iesu,
Ni thawaf byth am werth y gwaedu,
Ni thawaf byth nes clywo'r hollfyd
A dyfod ato i gael bywyd.

Ar bren y Groes fy Iesu roddwyd,
Ar bren y Groes ei ddwylo hoeliwyd,
Ar bren y Groes y gair 'Gorffennwyd'
Fu inni'r dechrau gorau gafwyd.

Cymerodd arno ein gwendidau,
Cymerodd arno ein doluriau,
Cymerodd arno ein holl feiau,
a'i rodd yn ôl i ni oedd maddau.

Ond haleliwia, atgyfododd!
A haleliwia, fe orchfygodd!
A haleliwia, clod i'r Iesu!
Cawn ninnau fywyd newydd felly. [CMJ]

****ANGEN GWIRFODDOLWYR****

Casgliad Stryd Cymorth Cristnogol
yng nghanol y dref
7 Hydref, 9.30–3.30.

# CYMDEITHAS Y MORFA

Ar gyfer cyfarfod cyntaf tymor newydd y Gymdeithas daeth y ffotograffydd Iestyn Hughes, Bow Street, atom i roi *Gwledd i'r Llygad*.




Mae Iestyn yn enedigol o Fôn a bellach wedi ymddeol o'i waith yn y Llyfrgell Genedlaethol fel pennaeth Archif Sgrin a Sain Cymru.

Gwerthfawrogwn yn fawr fod Iestyn wedi paratoi detholiad arbennig o'i luniau ar ein cyfer, a oedd yn cynnwys golygfeydd o Aberystwyth, o ardaloedd yng Ngheredigion a ledled Cymru; hefyd lluniau oedd yn cofnodi ei wyliau gan gynnwys y rhewlif Athabasca ym mynyddoedd y Rockies. Gyda'i gamera, mae Iestyn yn cofnodi digwyddiadau diddorol newidiadau tymhorol a'r tywydd ac mae ei waith yn aml i'w weld ar y teledu, mewn llyfrau ac ar gloriau cofiannau. Cawsom y fraint o weld detholiad ohonynt a chlywed y stori tu ôl i'r llun.

Mae Iestyn yn awdur nifer o lyfrau ac yn eu plith mae *Ceredigion wrth fy nhraed* a *Wales One Hundred Years Ago*.

Ar ran y Gymdeithas, diolchodd y Cadeirydd Hefin Jones i Iestyn am noson arbennig. Diolchodd i Elsbeth Lewis am gyfeilio i'r defosiwn, i Mary a Hefina am ddarparu'r lluniaeth ac i Hywel Cynwyd am argraffu'r tocynnau aelodaeth sydd ar werth gan Ifor Davies, y Trysorydd, am £4.

Cofiwch am y Swper Diolchgarwch nos Lun, 23 Hydref, am 7 o'r gloch yn y Festri, pryd y disgwyliwn Eleri Roberts a Trefor Pugh i roi sgwrs ac adloniant.

Eleri Davies (Ysgrifennydd)

---

Golygyddion y mis hwn yw Gwenan Creunant ac Ann Hawke.

Golygyddion Perthyn mis Tachwedd fydd Eifion ac Alwen Roberts. Gofynnir i chi anfon unrhyw gyfraniad erbyn dydd Gwener, 20 Hydref at eifionroberts095@btinternet.com, os gwelwch yn dda.

---

# CALENDR 2018




Erbyn i chi dderbyn y copi hwn o *Perthyn*, bydd Calendr 2018 ar gael i'w brynu ... os bydd popeth wedi mynd yn ôl y drefn! Lluniau gwych gan Amelia Davies a cherddi i gyd-fynd â nhw gan feirdd y Morfa. Y pris yw £5 gyda'r elw i gyd yn mynd i Apêl Corwynt Cariad er budd Ynysoedd y Philipinas. Bydd copïau ar gael oddi wrth Amelia.

## Gwasanaethau Diolchgarwch

bore Sul, 15 Hydref, 10 o'r gloch

**Gwasanaeth Diolchgarwch Yr Ysgol Sul**

Thema: Dal ati!

bore Mawrth, 17 Hydref, 10.30, Y Morlan

nos Iau, 19 Hydref, am 7 o'r gloch, Festri'r Morfa

*Casgliad tuag at Gymorth Cristnogol – Bara i'r Byd*

*Bore Sadwrn, 14 Hydref, am 9.30 yn y Festri. Gwerthfawrogir pob cyfraniad o flodau, gwyrddni a.y.b. tuag at addurno'r capel a phob cymorth gyda'r gwaith.* Diolch

# SWYDDOGAETHAU HYDREF 2017

**Blaenor y Mis** Wyn Hughes

**Porthorion** Rhys Jones, Eirian Evans
Menai Lloyd Williams, Menna Evans

**Blodau'r Cysegr – Y Morfa**

1 Mary James a Llinos Jones
8 Eirwen Lewis a Mary Bott
16 Meleri ac Elvey MacDonald
15 Arwel Jones a Sharon Owen
29 Ifor a Valmai Davies

**Blodau Ebeneser**

1 Megan J. Evans
8 Sylvia Lewis
15 Susan Hughes
22 Denise Morgan
29 Ann Skitt

**Cynorthwywyr Llestri Cymun**

1 (bore) Catrin Griffiths, Eirwen Lewis,
Awen McDougall, Valerie Jones

**Cynorthwywyr Ariannol**

1 William a Mair Griffiths
8 Beti Roberts a Blodwen Williams
15 Alun a Mary Jones Morris
22 Meirion Morgan a Menai Lloyd Williams
29 Brian Thomas a Dafydd Morgan Evans

**Tregerddan**

29 Dan ofal Glyndwr Griffiths a Noel Lloyd

## CYFARFOD CENHADOL CHWIORYDD CEREDIGION A GOGLEDD PENFRO

| | |
|---|---|
| Ble? | Capel Blaenannerch |
| Pryd? | Sadwrn, 7 Hydref |
| Faint o'r gloch? | 2.30 |

Anerchir gan Eleri Twynog

Paned i ddilyn
Croeso cynnes i bawb!

# DYDDIADUR HYDREF 2017

**GWASANAETHAU'R SUL** 10.00 a 6.00 yn y Morfa; 2.15pm yn Ebeneser. **Bydd yr oedfa nos yn newid i 5.00 o'r gloch ar 29 Hydref.**

| | |
|---|---|
| 1 | Eifion Roberts (cymun bore) |
| 8 | Delyth Morgan Phillips (bore a phrynhawn) |
| | Densil Morgan (nos) |
| 15 | Eifion Roberts |
| 22 | Rhidian Griffiths |
| 29 | Elfed ap Nefydd Roberts (bore a nos) |
| | Walford Gealy (prynhawn) |

**YSGOLION SUL**

Plant ac Ieuenctid: bore am 10
Oedolion: ar ôl gwasanaeth y bore

**CLWB HWYL HWYR** – bob nos Lun, 3.45–5, yn y Morlan


**CYFARFODYDD WYTHNOSOL** – nos Iau am 7 yn y Morlan

**CYLCH GWEDDI A CHOFFI** – bore Mawrth am 10.30 yn y Morlan

**CINIO BARA A CHAWS** – 2 Hydref, Canolfan St Paul, Stryd y Baddon, rhwng 12.00 a 1.30. Croeso cynnes i bawb!

**PWYLLGOR BLYNYDDOL CYMORTH CRISTNOGOL** – 11 Hydref, Canolfan St Paul, am 5.30. Croeso i bawb sydd â diddordeb!

**NOSON GOFFI A STONDINAU** - 29 Hydref, yn y Festri am 7.00. Noson dan ofal y blaenoriaid i godi arian at Apêl Corwynt Cariad.



Y GYMDEITHAS

23 Hydref, am 7 o'r gloch

Swper Diolchgarwch

Gwesteion: Eleri Roberts a Trefor Pugh

# RAS FEICIO NODDEDIG

Cynhaliwyd Ras Feicio Noddedig yr Ysgol Sul fore Sul 17 Medi. Diolch i Rhodri ac Elin am drefnu'r cyfan, i bawb arall fu'n helpu mewn unrhyw ffordd, ac i bob un a gymrodd ran yn y ras. Bu'n ddigwyddiad hyfryd, ac yn gyfraniad gwerthfawr arall at Apêl Corwynt Cariad Capel y Morfa.

